Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Briff polisi
Rhagfyr 2020

Goblygiadau pontio o'r Undeb Ewropeaidd i sectorau allweddol o economi Cymru

Cyflwyniad

Bydd trefniadau masnachu newydd rhwng y DU a'r UE ar ddiwedd y cyfnod pontio Ewropeaidd yn cael effaith ddwys ar economi Cymru. Bydd yr effaith yn cael ei theimlo ledled yr economi, yn ogystal ag yn unigol ar gyfer sectorau allweddol.

Mae ein dadansoddiad wedi'i lywio gan ein hadolygiad o lenyddiaeth ymchwil, trafodaethau â chynrychiolwyr sector o bob rhan o Gymru, a thrafodaeth bwrdd crwn gydag arbenigwyr.

Mae'r sectorau a ystyriwyd gennym yn cynnwys rhai sydd â phresenoldeb mwy o faint yng Nghymru nag yng ngweddill y DU, fel awyrofod a dur. Mae gan eraill, fel amaethyddiaeth a physgodfeydd, broffil unigryw yng Nghymru. Ac mae rhai yn cael eu hystyried yn strategol bwysig.

> **Bydd rhwystrau di-dariff yn achosi problemau i fusnesau lle gallai eu cynnyrch ffres ddifetha; neu lle mae nwyddau'n cynnwys gwahanol gydrannau**

Er y bydd trefniadau newydd yn effeithio ar bob sector mewn ffordd unigryw, mae yna rai themâu cyffredin. Mae'r briffio polisi hwn yn amlinellu rhai o'r prif bryderon a chyfleoedd a ganfuom. Gellir gweld trosolwg o'r sefyllfa ar gyfer pob sector yn ein hadroddiad llawn. Mae'r testun yn cynrychioli'r sefyllfa ar adeg ei gyhoeddi.

Meysydd sy'n peri pryder

Mae **parodrwydd** yn fater allweddol gyda llawer o sectorau yn teimlo'n llai parod ar gyfer y pontio hwn nag yr oeddent ar gyfer dyddiadau cau blaenorol Brexit. Mae hyn oherwydd cyfuniad o effaith y pandemig Coronafeirws ac ymdeimlad o 'flinder Brexit' a achoswyd drwy baratoi ar gyfer y cyfnodau pontio blaenorol.

Gallai'r diffyg parodrwydd hwn gael effaith ar sectorau sydd ar hyn o bryd yn dibynnu ar brosesau ffiniau di-dor, megis sectorau amaethyddol, modurol ac awyrofod, yn enwedig os na weithredir trefniadau ffiniau a thollau newydd mewn pryd ar gyfer y newidiadau yn gynnar yn 2021.

Er y bydd tariffau yn broblem i rai busnesau, mae disgwyl i **rwystrau di-dariff** fel oedi ar y ffin ac ardystio tollau gael effaith fwy sylweddol. Bydd y rhain yn fwy o broblem i fusnesau lle gallai eu cynnyrch ffres ddifetha; neu lle mae nwyddau'n cynnwys gwahanol gydrannau neu'n dod o wahanol genhedloedd, gan wneud y broses o ardystio yn anoddach. Mae'r rheolau newydd yn debygol o fod yn fwy cymhleth ac felly gall llawer o fusnesau eu torri heb sylweddoli.

Mae **dirywiad mewn buddsoddiad** yn bryder i'r mwyafrif o sectorau, ac yn enwedig i'r rheini sydd â llawer o fusnesau llai sydd wedi elwa o arian yr UE yn y gorffennol, megis amaethyddiaeth a thwristiaeth.

Mewn sectorau eraill fel awyrofod a dur, gallai sicrhau bod buddsoddiad a chefnogaeth ar gyfer ymchwil ac arloesedd yn cael ei gynnal helpu i leihau allyriadau carbon ac annog mwy o gwmnïau i sefydlu yng Nghymru.

Bydd **rheolau tarddiad,** lle gellir allforio cynhyrchion heb dariffau os cânt eu cynhyrchu yn y DU yn bennaf, yn her mewn sectorau lle mae cynhyrchion yn cynnwys gwahanol gydrannau sy'n dod o wahanol wledydd, megis cynhyrchu ceir. Gallai hyn gael effaith fawr ar elw a gallu cwmnïau i allforio, er nad yw llawer o gwmnïau eto'n cyfrifo'r goblygiadau o ran costau.

Mae diffyg eglurder ynghylch materion eraill fel labelu ac ardystio cynnyrch, sut y gellir cyrchu a storio data rhwng y DU a'r UE, ac a fydd rheolau ymfudo newydd yn caniatáu aseiniadau gwaith trawsffiniol tymor byr. Gallai pob un o'r rhain effeithio'n negyddol ar fusnesau.

Marchnad Fewnol y DU

Nod Bil y Farchnad Fewnol yw sicrhau y gellir gwerthu cynhyrchion a gynhyrchir neu a fewnforir mewn un rhan o'r DU ledled y DU. Fodd bynnag, mae wedi bod yn ddadleuol oherwydd bod y drafft gwreiddiol wedi blaenoriaethu cyfnewid di-ffrithiant rhwng y pedair gwlad gartref o flaen pob nod ac amcan polisïau cyhoeddus eraill, gan gynnwys datganoli (Dougan et al., 2020). Byddai'r Bil hefyd yn rhoi pwerau gwario newydd i Lywodraeth y DU mewn amrywiol feysydd polisi sy'n diystyru awdurdod y Senedd, er enghraifft seilwaith trafnidiaeth.

Mae newidiadau diweddar i Fil y Farchnad Fewnol yn cydnabod y setliad datganoli yn well, gan ganiatáu eithriadau o gytundebau cyd-gydnabod lle mae hyn yn cyflawni amcan polisi cyhoeddus. Fodd bynnag, mae gan y Bil y potensial o hyd i danseilio cyfrifoldebau polisi'r Senedd, ac mae angen mwy o eglurder.

Mae hefyd yn rhoi sylfaen statudol ar gyfer fframweithiau cyffredin ac yn caniatáu gwyro oddi wrth y rhain mewn rhai achosion. Gall y rhain gynnwys nodau a safonau cyffredin, cysoni a chytundebau ar gyd-gydnabod ar draws gwahanol feysydd polisi, fel y gofynnwyd gan Lywodraethau Cymru a'r Alban.

Bydd gan weithredu protocol Gogledd Iwerddon oblygiadau i farchnad fewnol y DU ac i Gymru. Mae cytundebau diweddar yn rhoi mynediad di-dariff ar gyfer nwyddau sy'n symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, ar hyd llwybr Caergybi-Dulyn. Fodd bynnag, bydd angen cytundeb pellach i sicrhau na fydd unrhyw feichiau gweinyddol newydd yn cael eu hychwanegu yn y dyfodol.

Cyfleoedd posib

Gallai cytundebau masnach â gwledydd eraill ddod â chyfleoedd i gwmnïau o Gymru. Er enghraifft, pe bai'r Unol Daleithiau yn cael gwared ar rwystrau i allforio cig oen o Gymru gallai fod o fudd i amaethyddiaeth Cymru trwy agor marchnad newydd.

Gallai pwerau newydd dros gymorth y wladwriaeth helpu i dyfu busnesau Cymru a darparu mwy o gyfleoedd i ddod â chynhyrchion arloesol i'r farchnad trwy ganiatáu buddsoddiad ar bob lefel o'r cylch datblygu cynnyrch.

Gallai pysgodfeydd ac amaeth elwa o ddod allan o systemau rheoleiddio’r UE a gallai ailddyrannu cwotâu pysgota a modelau newydd o gymorth fferm gefnogi busnesau Cymru.

Yn olaf, mae gan rai sectorau gysylltiadau da eisoes â phartneriaid masnachu y tu allan i'r UE a gellid cynnal a chryfhau'r rhain, a gellid rhannu arbenigedd perthnasol.

Argymhellion

Er mwyn cefnogi busnesau trwy'r cyfnod pontio, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn:

- Arwain busnesau wrth gymhwyso rheoliadau newydd, unwaith y byddant yn hysbys.
- Annog ailhyfforddi a chreu swyddi mewn cyfryngwyr tollau, seilwaith digidol, a chymorth logistaidd a busnes i ddiwallu’r galw cynyddol.

- Parhau i gyrchu fframwaith buddiol ar gyfer cyd-gydnabod cymwysterau a gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth fel rhan o unrhyw gytundeb masnach rydd.
- Cynnal cyllid brys ar gyfer sectorau y mae oedi ar y ffin yn effeithio arnynt, yn enwedig mewn sectorau sydd â mwy o ddibyniaeth ar brosesau ffiniau di-dor, gan gynnwys sectorau amaethyddiaeth a physgodfeydd, modurol, gwyddorau bywyd ac awyrofod.
- Casglu data i ddeall beth fydd effaith protocol Gogledd Iwerddon ar borthladdoedd Cymru.

Rydym hefyd yn argymell y mesurau canlynol i helpu busnesau Cymru i lwyddo yn y tymor canolig:

- Annog cydweithredu rhwng sectorau y gallai eu diddordebau gydgyfeirio, fel amaethyddiaeth a thwristiaeth os yw ffermwyr yn arallgyfeirio i wasanaethau llety.
- Annog buddsoddiad mewn Ymchwil a Datblygu i gefnogi sectorau sy'n dibynnu ar arloesedd. Er enghraifft, gwella arloesedd traws-sector mewn sectorau fel awyrofod a dur i ddatblygu ecosystemau cyflenwyr i gyfrannu at ddatgarboneiddio.
- Targedu cymorth y wladwriaeth i gynyddu cystadleurwydd sectorau a chryfhau strategaethau caffael presennol i hyrwyddo'r defnydd o nwyddau a gwasanaethau o Gymru ledled y DU.

Cyfeirnodau

Dougan, M., Hayward, K., Hunt, J., McEwen, N., McHarg, A. ac Wincott, D. (2020). **UK Internal Market Bill, Devolution and the Union**. Canolfan Llywodraethu Cymru, Centre on Constitutional Change and UK in a Changing Europe.

Rhagor o wybodaeth

Am yr adroddiad llawn gweler Johnson, C., Price, J., Tilley, H. (2020). **Goblygiadau pontio o'r Undeb Ewropeaidd i sectorau allweddol o economi Cymru.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Ynglŷn â Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Craig Johnson

craig.johnson@wcpp.org.uk

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG

www.wcpp.org.uk/cy

029 2087 5345

info@wcpp.org.uk

@WCfPP

Cardiff University Prifysgol Caerdydd

UKRI Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru Welsh Government